# Sgowtio Saff

## Beth i'w wneud mewn argyfwng

**Mae'r cerdyn hwn ar gyfer pob gwirfoddolwr Sgowtiaid. Mae'n cynnwys gwybodaeth hanfodol, felly cadwch ef wrth law bob amser.**

**Manylion cyswllt Gwirfoddolwr Arweiniol y Grŵp/Ardal:**

**scouts.org.uk/emergencies**

Scouts

**Mewn argyfwng, dilynwch y camau a'r canllawiau hyn.**

### Cam 1: Aseswch y perygl i chi'ch hun ac eraill

Cyn helpu unrhyw un arall, mae'n rhaid i chi wneud yn siŵr eich bod chi'n ddiogel. Os oes angen, stopiwch y gweithgaredd i atal niwed pellach.

**Ble ydyn ni?**

- A oes rhywbeth peryglus gerllaw?
- Oes angen i ni symud pobl i le mwy diogel yn gyntaf?

**Beth sy'n beryglus?**

- A oes unrhyw beryglon cudd? Er enghraifft, gwydr wedi torri, neu rywbeth llithrig?
- A oes pethau eraill a allai eich brifo chi neu unrhyw un arall sy'n ceisio helpu?

### Cam 2: Asesu/Rhoi cymorth cyntaf

- A oes angen cymorth neu arbenigedd ychwanegol arnoch?
    - Os oes, codwch y larwm a cheisiwch gymorth.
    - Parhewch i roi cymorth cyntaf yn ôl yr angen.
- Blaenoriaethwch ofal pobl sydd wedi'u hanafu yn seiliedig ar eu hanafiadau.
- Ceisiwch nodi beth rydych chi'n ei wneud, os yn bosibl, gan gynnwys amseroedd.

### Cam 3: Codwch y larwm a cheisiwch gymorth

- Cysylltwch â'r gwasanaethau brys am gymorth cyn gynted â phosibl. Casglwch fanylion i'w rhannu gyda nhw.
- Darganfyddwch eich union leoliad (#W3W/ Cyfeirnod Grid OS), gyda phwy rydych chi (gan gynnwys niferoedd), a chael rhywun i arwain y gwasanaethau brys atoch chi.

### Cam 4: Cadwch bawb yn ddiogel, yn iach, ac wedi'u diweddaru

- Gofalwch amdanoch chi'ch hun.
- Canolbwyntiwch ar y bobl eraill a'u diogelwch a'u lles. Cydweithiwch â'ch tîm i wneud hyn.
- Rhowch y newyddion diweddaraf i'r gwasanaethau brys a'ch cyswllt InTouch dynodedig* am unrhyw ddatblygiadau, gan gynnwys pryd y bydd y sefyllfa wedi'i datrys.

* Gallai hwn fod yn gyswllt brys ar gyfer teithiau rhyngwladol, Gwirfoddolwr Arweiniol eich Grŵp neu Ardal, neu unigolyn trydydd parti a drefnwyd ymlaen llaw.

### Cam 5: Adrodd

- **Ffoniwch Bencadlys y DU fel y disgrifir ar gyfer digwyddiadau a ddangosir dros y dudalen.**
- Hysbyswch ac adroddwch wrth Wirfoddolwr Arweiniol eich Grŵp/Ardal gan ddefnyddio eich prosesau adrodd lleol.
- Adroddwch yn brydlon wrth Bencadlys y DU am achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd a digwyddiadau y mae'n rhaid eu hadrodd **scouts.org.uk/safetyreporting**.
- Hysbyswch asiantaethau allanol cyn gynted â phosibl (gyda chefnogaeth Pencadlys y DU) am y digwyddiad, lle bo'n berthnasol.

### Pwyntiau allweddol

- **Cofiwch** gadw cofnod o unrhyw gamau gweithredu a chyfathrebu, gan gynnwys manylion pobl eraill a allai fod wedi gweld yr hyn a ddigwyddodd.
- **Peidiwch** â chynhyrfu a gofynnwch am gymorth lle bo angen. Peidiwch â cheisio delio â phethau ar eich pen eich hun.
- **Os yw'n briodol,** tynnwch luniau o'r lleoliad yn sensitif i helpu cofnodi'r hyn a ddigwyddodd. Bydd hyn yn eich helpu i gofio'r manylion ac yn cynorthwyo gyda dysgu.
- **Peidiwch** â phoeni am sefydlu bai.

- **Cofiwch** gyfeirio bob neges newyddion a chyfryngau cymdeithasol at Swyddog Dyletswydd y DU a cheisiwch gymorth trwy ffonio Pencadlys y DU cyn siarad â'r cyfryngau.
- **Peidiwch** â chychwyn cyswllt â'r cyfryngau newyddion na phostio ar y cyfryngau cymdeithasol (ac anogwch eraill i beidio â gwneud).
- **Ar gyfer unrhyw bryderon diogelu,** dilynwch y Cod Ymddygiad Diogelu ar gyfer Oedolion (Cerdyn Melyn).

### Adrodd lleol a beth i'w wneud

- **Hysbyswch eich Gwirfoddolwr Arweiniol.** Cysylltwch â Gwirfoddolwr Arweiniol eich Grŵp neu Ardal cyn gynted â phosibl.
- **Cofnodwch yr hyn a ddigwyddodd.** Cofnodwch y ffeithiau allweddol yn glir ac yn gywir. Ysgrifennwch nhw i lawr neu tynnwch luniau neu fideos, os yw'n briodol.
- **Cadwch y cofnodion yn ddiogel.** Gellir eu defnyddio i gefnogi adolygiadau dysgu diogelwch neu gellir gofyn amdanynt ar ôl y digwyddiad.

### Diffiniadau difrifoldeb digwyddiad

- **Achos y bu ond y dim iddo ddigwydd:** Digwyddiad annisgwyl sydd â'r potensial i achosi niwed ond na wnaeth ar yr achlysur hwn.
- **Digwyddiad hysbys:** Digwyddiad sy'n gofyn am ymyrraeth feddygol (e.e. fferyllydd, meddyg teulu, ysbyty, canolfan driniaeth frys, clinig, neu ddeintydd), neu sy'n cynnwys achub gan y gwasanaeth brys, neu ddifrod i eiddo trydydd parti.

### Cysylltu â Phencadlys y DU

**Mae angen i chi ffonio Pencadlys y DU os byddwch chi'n profi digwyddiad lle mae un neu fwy o'r canlynol yn berthnasol:**

- **marwolaeth o ganlyniad i weithgaredd sgowtio,**
- **arhosiad ysbyty tebygol o 3 diwrnod neu fwy,**
- **nifer o bobl wedi'u hanafu gan ddigwyddiad hysbys ac arhosiad dros nos yn yr ysbyty,**
- **neu gwymp strwythur sylweddol, p'un a ddioddefwyd anaf ai peidio.**

Ffoniwch Swyddog Dyletswydd y DU gan ddefnyddio un o'r rhifau canlynol (24 awr):
**0345 300 1818 neu +44 20 8433 7100**

Rydym yn argymell eich bod yn cadw'r rhifau hyn ar eich ffôn.

Ar gyfer pob achos y bu ond y dim iddo ddigwydd, rhaid i chi lenwi'r ffurflen adrodd digwyddiadau ar-lein yn **scouts.org.uk/safetyreporting** neu sganio'r cod QR isod.

Sganiwch fi am wybodaeth am argyfyngau, digwyddiadau, salwch ac adrodd **scouts.org.uk/emergencies**

Sganiwch fi i lenwi'r ffurflen adrodd digwyddiadau ar-lein **scouts.org.uk/safetyreporting**

Fersiwn 8. Ionawr 2026